CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 2il o Chwefror 2016 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Lon Davies
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Enid Cole, Ceirwyn John, Julie Charlton, Robin Phillips,
Cynghorydd Sir: Cyng. Keith Lewis
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Alwyn Evans, Llinos Davies

Cofnodion 05.01.16
Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion
108. Llythyr wrth Llywodraeth Cymru ynglyn ar palmant. Llythyr i cadarnhau bod y dylunio rhagarweiniol wedi ei gwbwlhau. Yn dilyn trafodaethau llwyddianus disgwyl i'r gwaith ddechrau 2016/17.

Gohebiaeth
109.Llythyr wrth Cyngor am Bopeth Ceredigion ynglyn a cais ariannol. Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John y rhodd o £100.00
110. Cyfanswm yn y banc 25.01.16 £3,816.76

Unrhyw Fater arall
111. Un Llais Cymru – Llythyr aelodaeth 2016/2017. Cynigodd Julie Charlton ac eiliodd Ieuan Davies i ymuno. Tal aelodaeth £100.00
112. Llythyr Clebran – Llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol.
113. Llythyr wrth Ysgol Feithrin Eglwyswrw – Llythyr yn diolch am y rhodd ariannol tuag at yr ardal allanol.
114. Llythyr wrth Cymdeithas Cymuned Brynberian – Llythyr ynglyn a diffibriliwr sydd wedi dod i'r ardal. Noson o hyfforddiant Nos Fawrth 9fed o Chwefror am 7yh yng Nghanolfan Cymuned Brynberian.
115. Ebost wrth Mike Thomas, Pantyrodyn, Eglwyswrw. Ebost ynglyn a eisiau bin ar gyfer gwastraff ar ddiwedd y feidr. Cyng Keith Lewis yn edrych i fewn i cael bin ychwanegol.
116. Ffrindiau Ysbyty Aberteifi- Fe ddaeth Enid Cole a gwybodaeth a chynllun ariannol Ysbyty Aberteifi er gwybodaeth i pawb.
117. Fe ddywedodd Ieuan Davies fod yna tyllau archwilio "manholes" ar yr A487 ger Cross House yn isel ofnadwy. Cyng Keith Lewis yn edrych ar y sefyllfa.
118. Neges wrth Cyng Keith Lewis fod yna Swydd wag ar ffwrdd Llywodraethwyr Ysgol Eglwyswrw ar gyfer Llywodraethwr Awdurdod Lleol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 5ed o Ebrill am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 8.40y.h.